Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad
# ar

# Cylch Meithrin Llansannan
# Ysgol Bro Aled
# Llansannan
# Sir Conwy
# LL16 5HN

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Wil Williams**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 21/07/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Llansannan yn lleoliad meithrin cofrestredig sy'n cyfarfod mewn ystafell yn Ysgol Gynradd Llansannan. Mae'n darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant pentref Llansannan a'r ardal wledig o'i gwmpas.

Mae'r lleoliad yn derbyn plant o bob gallu a chefndir i'r sesiynau. Nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad yn ystod yr arolygiad. Cymraeg yw prif iaith y cartref i'r rhan fwyaf o'r plant.

Mae'r lleoliad yn darparu sesiynau o ddwy awr a hanner ar bedwar prynhawn yr wythnos i blant tair a phedair oed. Mae saith o blant tair oed wedi'u cofrestru yn y lleoliad gyda phump ohonynt yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae plant yn cael eu haddysgu gan arweinydd a dwy ymarferydd sydd â chymhwyster sy'n berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn Chwefror 2014 a chan Estyn ym Mehefin 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yn dda oherwydd bod:

- ansawdd y profiadau dysgu ar gyfer datblygu medrau rhifedd, medrau meddwl a medrau datrys problemau plant, yn rhagorol;
- darpariaeth ragorol ar gyfer hyrwyddo parch y plant tuag at ddiwylliannau eraill:
- gweithgareddau dychmygus yn denu diddordeb plant ac yn sicrhau eu hymglymiad i'w dysgu;
- cyfleoedd cyson i blant fentro a datblygu'n ddysgwyr annibynnol;
- ymarferwyr yn sicrhau bod pob plentyn yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu;
- addysgu ac asesu effeithiol yn hyrwyddo dysgu da; ac
- amgylchedd dysgu diddorol a chyffrous yn hyrwyddo gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn rhagorol oherwydd bod:

- arweinyddiaeth ragorol yn rhoi synnwyr cryf o bwrpas i waith ymarferwyr;
- ystod eang o bartneriaid yn cyfrannu'n rhagorol at ansawdd y profiadau dysgu;
- disgwyliadau ar gyfer sicrhau gwelliant yn uchel ond yn realistig;
- y lleoliad yn hunan-arfarnu barhaus ac yn archwilio ffyrdd o wella;
- hunan-arfarnu eisoes wedi arwain at welliannau mewn agweddau o fathemateg a TGCh;
- ymarferwyr yn cyflawni eu rolau'n effeithiol ac yn cyfrannu'n allweddol tuag at ansawdd addysgu a dysgu.;
- y lleoliad yn gymuned ddysgu gref sydd wedi sefydlu diwylliant cadarnhaol o gydweithio; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

1. Mae angen i'r lleoliad roi ei drefniadau ar gyfer monitro addysgu ar waith.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu hadlewyrchu'n gryf iawn yn ansawdd y profiadau dysgu sy'n cael eu darparu ar gyfer plant. Mae cyd-gynllunio manwl a hyblyg yn galluogi ymarferwyr i ddarparu amrediad eang o weithgareddau dychmygus sy'n denu diddordeb plant ac yn sicrhau eu hymglymiad i'w dysgu. Mae'r pwyslais cryf sydd ar ddysgu trwy chwarae yn annog pob plentyn i fentro ac arbrofi gyda phrofiadau newydd ac i ddatblygu'n ddysgwr annibynnol. Mae hon y nodwedd ragorol sy'n gosod sylfaen cadarn i bob plentyn ar gyfer dysgu pellach.

Mae'r lleoliad yn cynllunio'n drylwyr iawn ar gyfer datblygu medrau llythrennedd plant ar draws pob maes dysgu ac yn rhoi sylw manwl i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Yn ystod sesiynau torfol, mae anogaeth gref ar blant i rannu eu profiadau ac i werthfawrogi cyfranogiad plant eraill yn y grŵp. Mae profiadau chwarae rôl, megis paratoi cawl, yn hyrwyddo medrau llafaredd plant yn sylweddol. Mae'r gornel lyfrau yn llecyn diddorol a chyfforddus sy'n annog plant i ymddiddori mewn llyfrau ac mae cyfleoedd cyson iddynt greu marciau i wahanol bwrpasau. Er enghraifft, ar gyfer ysgrifennu llythyr gwahoddiad i barti.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo medrau rhifedd plant ynghyd â'u medrau meddwl a datrys problemau, yn rhagorol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r her a gafodd grŵp o blant o gael llyfr llydan i mewn i fag cul. Caiff profiadau rhifedd plant eu hehangu'n ymhellach gan ymweliadau â mannau yn y gymuned megis siop a chan gyfraniad ymwelwyr o'r gymuned sy'n dod i'r lleoliad i siarad am eu profiadau gwaith.

Caiff yr ardal y tu allan ei defnyddio'n ddychmygus iawn gan yr arweinydd ar gyfer gosod heriau i'r plant. Enghraifft nodedig o hyn oedd y dasg o gael pêl i redeg i lawr cyfres o gwteri dŵr.

Mae darpariaeth dda ac adnoddau addas ar gyfer hyrwyddo medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r (TGCh) plant.

Adlewyrchir diwylliant Cymreig yr ardal yn gryf ym mhrofiadau dysgu'r plant. Cânt gyfleoedd gwerthfawr i gystadlu yn eisteddfod y pentref, maent yn ymweld â'r siop leol yn aml ac yn elwa'n fawr o ymweliadau â'r lleoliad gan bobl o'r gymuned.

**Addysgu: Da**

Mae addysgu effeithiol ynghyd â threfniadau asesu a chofnodi cynnydd cynhwysfawr, yn hyrwyddo dysgu da.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'r Cyfnod Sylfaen ac maent wedi ymrwymo'n gryf i sicrhau bod plant yn ddysgwyr gweithredol. Mae arferion a gweithdrefnau dydd-i-ddydd wedi hen sefydlu. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn setlo'n gyflym ar gychwyn sesiynau, maent yn gwybod beth i'w ddisgwyl ac yn teimlo'n ddiogel a chyfforddus yn y lleoliad. Mae'r plant, o ganlyniad, yn hyderus i roi cynnig ar brofiadau newydd ac i ddysgu oddi wrth eu camgymeriadau. Mae'r berthynas sydd rhwng ymarferwyr a phlant yn gadarnhaol iawn.

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o bob plentyn ac maent yn defnyddio holi'n effeithiol i ymestyn dysgu plant ac i herio eu syniadau. Maent yn fodelau iaith da ac mae hyn yn sicrhau bod medrau llafar a geirfa plant yn cael eu hymestyn a'u gwella.

Mae gwaith tîm effeithiol yn sicrhau bod cysondeb yn nulliau gweithio ymarferwyr, er enghraifft, wrth wybod pryd i ymyrryd yn chwarae plant a phryd i adael i blant wneud pethau yn ffordd eu hunain.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda. Mae'r arfer o bennu targedau personol i blant yn galluogi ymarferwyr i gadw llygaid agos ar gynnydd pob unigolyn trwy gydol eu hamser yn y lleoliad. Gwneir defnydd effeithiol iawn o ddeilliannau asesiadau wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol. Trwy ddiwrnodiau agored, sgyrsiau anffurfiol gydag ymarferwyr a thrwy dderbyn albwm o luniau eu plentyn ar waith yn yr ardaloedd dysgu, caiff rhieni wybodaeth ddiddorol a chyflawn o gynnydd eu plant yn y chwe maes dysgu.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad and hyrwyddo iechyd a lles plant yn llwyddiannus ac yn cefnogi eu dysgu'n effeithiol. Mae'n gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Mae'r profiadau dyddiol a gaiff plant o gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn neuadd yr ysgol ac yn yr ardal y tu allan, yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad corfforol a'u ffitrwydd.

Yn ystod sesiynau, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf ar yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, ac i fod yn onest a theg. Mae hyn yn help mawr i blant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn. Mae cyfleoedd rheolaidd i blant trwy 'Helpwr Heddiw,' i ymgymryd â chyfrifoldebau yn ystod amser cylch a byrbrydau ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu. Mae hyn yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo parch y plant tuag at gredoau, arferion a thraddodiadau eraill yn rhagorol. Cyfoethogir profiadau dysgu'r plant yn sylweddol gan ymweliadau i'r lleoliad gan rieni ac aelodau o'r gymuned sy'n hanu o wledydd tramor megis Japan a Mecsico.

Mae trefniadau effeithiol ar gyfer ail-gylchu ac arbed gwastraff.

Mae’r trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu plant i ymgartrefu’n gyflym a didrafferth yn y lleoliad.  Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Caiff anghenion dysgu plant eu nodi’n fanwl pan fyddant yn ymuno â’r lleoliad.  Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac maent yn gweithredu’n fwriadus pan fo angen mynediad at gymorth proffesiynol ar blant a rhieni.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae’r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau sy’n cael eu darparu ar eu cyfer.  Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch.  Nodwedd amlwg iawn o’r lleoliad yw’r amgylchedd dysgu diddorol a chyffrous a grëir ynddo a’r cyfleoedd a gaiff pob plentyn i ddatblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae digon o adnoddau o ansawdd da i gefnogi dysgu plant ar draws yr holl feysydd dysgu a’r medrau.  Maent yn hygyrch i’r plant ac yn cael eu defnyddio’n ddychmygus dros ben dan do ac yn yr ardal y tu allan i hyrwyddo ymglymiad plant  ac i sicrhau dysgu effeithiol.

Caiff yr ardal y tu allan ei ddefnyddio’n effeithiol iawn er mwyn ennyn chwilfrydedd plant a datblygu eu medrau.  Mae gweithgareddau fel plannu llysiau a phlanhigion a datrys problemau ymarferol, yn cyfoethogi profiadau dysgu plant yn sylweddol.

Gwna’r lleoliad ddefnydd pwrpasol ac effeithiol o adnoddau’r gymuned i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth.  Mae’r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n helaeth.

| Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth:  Rhagorol**

Mae’r arweinydd yn llywio gwaith y lleoliad yn hynod o fedrus ac yn rhoi synnwyr cryf o bwrpas i waith ymarferwyr.  Mae disgwyliadau uchel ond realistig ar gyfer sicrhau gwelliant  gyda’r arweinydd yn weithredol yn cefnogi a gosod her i bawb i wneud eu gorau.  Mae’n darparu arweiniad clir i’r holl staff yn ystod sesiynau ac yn archwilio ffyrdd newydd o godi safonau a gwella profiadau dysgu plant yn barhaus.  Mae’r rhain yn nodweddion rhagorol sy’n arwain at brofiadau dysgu a gwaith tîm o ansawdd uchel.

Mae gweledigaeth glir gan yr arweinydd ynghylch dysgu ac addysgu ac mae hyn yn dylanwadu’n gryf iawn ar ansawdd cyfraniad ymarferwyr a’r ethos cadarnhaol a grëir yn y lleoliad.  Mae’r synnwyr cryf o ddiben a ddarperir ganddi yn hybu a chynnal gwelliant yn effeithiol iawn.  Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth eglur o’u rolau a’u cyfrifoldebau ac maent yn cyfrannu’n allweddol tuag at ansawdd dysgu ac addysgu. .

Mae perthynas gyda phlant, rhieni a’r ysgol gynradd yn gadarnhaol iawn ac yn cyfrannu’n arwyddocaol tuag at greu synnwyr o gymuned.

Mae gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso perfformiad staff ac adnabod anghenion hyfforddiant a datblygiad unigolion a rhai’r lleoliad cyfan yn drylwyr ac effeithiol. Cânt effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad y lleoliad..

Er bod sesiynau’n cael eu rheoli’n dda iawn nid yw’r trefniadau ar gyfer monitro’r addysgu a’r dysgu, hyd yma, wedi eu rhoi ar waith.

Mae gan y pwyllgor rheoli wybodaeth dda am berfformiad y lleoliad ac mae’n cyflawni ei gyfrifoldebau’n gydwybodol. Mae’n cefnogi’r lleoliad fel cyfaill beirniadol yn effeithiol ac yn ddylanwadol mewn cynnal safonau uchel a gosod blaenoriaethau.

**Gwella ansawdd: Da**

Gydag arweiniad bwriadus yr arweinydd, mae ymarferwyr yn hunan-arfarnu barhaus ac yn archwilio ffyrdd o godi safonau a gwella ansawdd profiadau dysgu plant. O ganlyniad, mae ganddynt adnabyddiaeth drylwyr o gryfderau’r lleoliad ynghyd â’r agweddaumae angen iddynt eu gwella. Mae arfer yr arweinydd ar ddiwedd sesiynau o annog plant i fynegi barn ynghylch eu profiadau dysgu, yn sicrhau bod gan bob unigolyn lais cryf yn natblygiad y lleoliad. Mae’r broses hunan arfarnu yn ogystal, yn rhoi ystyriaeth fanwl i farn rhieni a’r pwyllgor rheoli gyda’r arweinydd yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw faterion a godir.

Mae’r lleoliad yn elwa’n sylweddol o gyngor proffesiynol ac adroddiadau ansawdd athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Mae arferiad yr arweinydd o lunio cynllun gweithredu manwl er mwyn rhoi argymhellion yr adroddiadau ar waith yn arwain at gynnydd parhaus.

Mae’r adroddiad hunan-arfarnu o ansawdd da ac yn adnabod yn glir beth yw cryfderau’r lleoliad a’r agweddau sydd angen eu gwella’n glir. Mae’r wybodaeth sy’n deillio o hunan-arfarnu yn cael ei ddefnyddio’n bwrpasol i greu cynllun datblygu sy’n nodi’n amlwg y camau y bwriedir eu cymryd i roi gwelliannau ar waith. Gall ymarferwyr ddangos sut maent, trwy hunan-arfarnu, wedi cynyddu defnydd y plant o eirfa fathemategol a hefyd cryfhau eu hyfedredd gydag offer TGCh.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n rhagorol at ansawdd profiadau dysgu a lles plant. Caiff rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad a chymerir camau gweithredol gan ymarferwyr i'w cynnwys yn yr holl weithgareddau a drefnir. Mae’r llawlyfr gwybodaeth yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am bolisïau a gweithdrefnau’r lleoliad.

Mae’r cysylltiadau arbennig o gynhyrchiol sydd rhwng y lleoliad a nifer helaeth o drigolion y pentref yn cyfoethogi profiadau dysgu plant yn sylweddol ac yn cyfrannu’n rhagorol tuag at eu datblygiad personol, diwylliannol a chymdeithasol. Mae’r rhain yn cynnwys mudiadau gwirfoddol yn y gymuned, rhieni, pobl sy’n dod i drafod eu gwaith gyda’r plant a staff y Ganolfan Gymunedol. Mae’r partneriaid hyn wedi helpu’r plant i ddysgu mwy am waith pobl fel ffermwyr, meddygon, dynion tân a’r heddlu ac i gael help i blannu llysiau a phlanhigion yn yr ardal y tu allan.

Mae cysylltiadau agos iawn ac effeithiol gyda’r ysgol gynradd sydd hefyd yn yr un adeilad. Mae hyn yn galluogi’r lleoliad i ymuno yn nifer o weithgareddau’r ysgol ac i ddefnyddio neuadd a chae chwarae’r ysgol yn rheolaidd ar gyfer cynnal amrywiaeth o weithgareddau. Mae’r trefniadau effeithiol iawn sydd ar gyfer rhannu gwybodaeth asesu ac arferion da yn sicrhau bod yr holl blant yn trosglwyddo’n ddirwystr i ddosbarth y Cyfnod Sylfaen wedi iddynt orffen eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r cydweithio agos sydd rhwng y lleoliad ac athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau. Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r lleoliad yn gymuned ddysgu gref sydd wedi sefydlu diwylliant cadarnhaol o gydweithio. Caiff aelodau staff eu cefnogi’n dda gan ddatblygiad proffesiynol parhaus sy’n eu galluogi i ddiweddaru eu gwybodaeth a’u medrau yn rheolaidd.

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Gwna'r arweinydd ddefnydd effeithiol o amser a phrofiad staff er mwyn sicrhau bod y gofal a’r gynhaliaeth sydd ar gael i blant o’r safon uchaf bosibl.

Mae’r trysorydd y pwyllgor rheoli yn cadw cofnod manwl o sefyllfa gyllidol y lleoliad ac yn gwneud yn siŵr bod gwariant yn cael ei reoli'n ddarbodus yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Mae penderfyniadau gwariant yn cael eu harfarnu'n ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant.

Mae gallu’r pwyllgor rheoli i ddenu grantiau o wahanol ffynonellau wedi galluogi’r lleoliad i i ddatblygu’r ardal y tu allan ac i uwchraddio’r ddarpariaeth ar gyfer TGCh. Mae hyn wedi ymestyn profiadau dysgu plant a gwella eu medrau yn y maes.

Ag ystyried ansawdd rhagorol y profiadau dysgu, mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |